



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

**Bwrdd Rheoleiddiol Cymru
Penodi Aelod Annibynnol o'r Bwrdd**

Dyddiad Cau: 31 Ionawr 2018



Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Cynnwys

Tudalen

Gwneud Cais

Atodiad A: Rôl yr aelodau o'r bwrdd

Atodiad B: Rôl y Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Atodiad C: Y broses ddethol

Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn aelod ar Fwrdd Rheoleiddio Cymru. Bydd disgwyl i'r aelod annibynnol newydd weithio gyda Chadeirydd y Bwrdd i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar berfformiad Cymdeithasau Tai yng Nghymru, gan gynnig cyngor strategol ar yr opsiynau yn y dyfodol ar gyfer y sector, a herio dull Llywodraeth Cymru o reoleiddio'r sector. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	31/01/2018
Llunio rhestr fer:	05/03/2018
Cyfweliadau:	12/03/2018

Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a rôl yr Aelod cysylltwch â Carol Kay.

Ffôn: 03000628172

E-bost: Carol.Kay@cymru.gsi.gov.uk

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Penodi aelod annibynnol i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Sefydlwyd y Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn 2016. Mae gan y Bwrdd chwe aelod annibynnol, yn ogystal â'r Cadeirydd. Mae'r Bwrdd yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ac yn gyfrifol am oruchwyllo gwaith rheoleiddio Llywodraeth Cymru a chymdeithasu tai yng Nghymru a hefyd cynnig cyngor cysylltiedig i'r Gweinidog.

Bydd yr Aelod Annibynnol o'r Bwrdd yn;

- cyfrannu i waith y Bwrdd drwy fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd, drwy baratoi'n drylwyr a chyfrannu'n wybodus.
- cynorthwyo'r cadeirydd i sicrhau consensws yn nhrefnadaethau'r Bwrdd
- bodloni safonau uchel o ran uniondeb a llywodraethu
- mynychu cyfarfodydd perthnasol eraill yn ôl y gofyn.
- cyfrannu'n weithredol at waith y Bwrdd, gan gynnwys adolygiadau thematig.

Penodir yr aelod annibynnol am gyfnod o hyd at dair blynedd. Bydd pob aelod yn gallu cynnig barn awdurdodol o'r gyfundrefn reoleiddiol, a hynny ar sail eu harbenigedd personol. Bydd disgwyl i bob aelod gefnogi gweithrediad y Bwrdd drwy ddarparu gwybodaeth berthnasol yn y maes, ac:

- (a) cynnig barn ar y materion sydd o fewn eu cylch gwaith mewn perthynas â rôl y bwrdd;
- (b) cyfrannu at drafodaethau ar faterion yn unol â cheisiadau'r Gweinidog Cabinet, neu fel y cytunir â'r Gweinidog, mewn perthynas â'r Cylch Gorchwyl a nodir isod.

Bydd gan aelodau'r Bwrdd hawl i daliad cydnabyddiaeth yn seiliedig ar lefelau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd treuliau priodol yn cael eu talu hefyd.

Manyleb y Person

Meini Prawf Hanfodol

Dadansoddi a dehongli

- y gallu i ddadansoddi a dehongli data cymhleth er mwyn monitro lefelau perfformiad yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt.

Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu

- y gallu i gynnig her adeiladol;
- agwedd gydweithredol tuag at waith y Bwrdd;

Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

- sgiliau gwranddo da a greddfau cadarn sydd wedi eu datblygu'n dda;

Cyngor a Chyfarwyddyd

- y gallu i gyfrannu at argymhellion ymarferol;

Safonau ymddygiad corfforaethol a phersonol uchel

- ymrwymiad cryf i gyfleoedd cyfartal a dealltwriaeth o werthoedd gwasanaeth cyhoeddus.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y rôl.

Dymunol

Byddai cefndir mewn un neu ragor o'r meysydd canlynol yn ddefnyddiol, ond nid yw'n hanfodol:

- darparu tai
 - polisi tai
 - benthyca
 - cydymffurfiaeth a rheoleiddio
 - profiad personol o fod yn denant i landlord cymdeithasol cofrestredig.
- gwybodaeth am darparu tai, polisi tai neu gyllid tai a dealltwriaeth o reoleiddio a'r sector cymdeithasau tai dielw
 - y gallu i fonitro, adrodd a chynghori ar berfformiad cymdeithasau tai yng Nghymru a sut y gellir gwella swyddogaeth reoleiddio Llywodraeth Cymru.
 - dealltwriaeth o'r fframwaith gwleidyddol a pholisi a'r gallu i lunio cyngor a chyfarwyddyd ar bolisi i Weinidogion a gweision sifil.

Y Gymraeg -Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol yn hytrach na'n hanfodol.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Cymru, fel arfer yn swyddfeydd cymdeithasau tai.

Ymrwymiad Amser: Disgwylir i'r Bwrdd gyfarfod **o leiaf** bob chwarter gyda dau gyfarfod y flwyddyn â'r Gweinidog, o bosibl. Yn ogystal, dylai'r Aelod Annibynnol fod ar gael am delegynhadledd awr a hanner o hyd yn fisol. Bydd disgwyl i'r Aelod Annibynnol dreulio o leiaf 2 ddiwrnod fesul chwarter (cyfanswm o 8 diwrnod y flwyddyn) ar fusnes y Bwrdd.

Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Hyd y penodiad: Bydd y penodiad am gyfnod o dair blynedd i ddechrau, a gellir ei adnewyddu i uchafswm o chwe blynedd, yn amodol ar adolygiad boddhaol

Taliad Cydnabyddiaeth: **£198 y diwrnod** fydd y tâl am Aelod. Ystyrir Aelodau Annibynnol y Bwrdd yn ddeiliad swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. Bydd ffioedd sy'n daladwy felly yn cael eu trethu o dan Atodlen E o'r Ddeddf Trethi ac yn destun cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1. Didynnir y rhwymedigaethau hyn drwy system gyflogres Llywodraeth Cymru a thelir y ffi net i ddeiliad y swydd. Ni chodir TAW ar y ffioedd.

Ceir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill a geir wrth weithio ar y Bwrdd oddi wrth Lywodraeth Cymru o fewn terfynau cydnabyddedig. Mae'n bosibl hefyd y byddwch yn gymwys i hawlio ad-daliad costau sy'n ymwneud â gofal plant/ gofal yr henoed/ gofalwr cynorthwyol, wrth weithio ar ran y Bwrdd.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn ffordd a fydd yn cadw hyder y cyhoedd ynddynt.

Yn benodol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol a fyddai'n peri chwithdod iddynt hwy eu hunain neu i Lywodraeth Cymru pe byddai'n dod yn hysbys ar ôl eu penodi.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015. <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Fwrdd Rheoleiddiol Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Bwrdd Rheoleiddiol Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Statws Cyfreithiol

Sefydlwyd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru (y Bwrdd) drwy bwerau rheoleiddio tai a roddwyd i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Tai 1996 fel Bwrdd Cynghori i gynnig cyngor i Weinidogion Cymru.

Mae Adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth sy'n anelu at hwyluso unrhyw un o'u swyddogaethau eraill, sy'n eu hyrwyddo neu sy'n gysylltiedig â defnyddio'r swyddogaethau hynny, sef yn y cyswllt hwn, y swyddogaethau rheoleiddio o dan Ddeddf Tai 1996.

Cefndir y Bwrdd

Prif ddiben Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yw dwyn Tîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei waith drwy oruchwyllo'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Rheoleiddiol. Mae hefyd yn hysbysu Gweinidogion am berfformiad y sector cymdeithasau tai.

Mae'r Bwrdd Rheoleiddiol cyfredol wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2016. Mae'n Fwrdd hollol annibynnol, a benodwyd drwy'r broses penodiadau cyhoeddus, ac yn disodli'r Bwrdd Rheoleiddiol blaenorol lle roedd yr aelodaeth yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid tai gydag un aelod annibynnol a Chadeirydd annibynnol.

Mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau, gan gynnwys adroddiad blynyddol, a chanllawiau gan y Rheoleiddiwr yn ogystal â chyhoeddiadau eraill ar berfformiad y sector. Mae'r gwybodaeth yn cael ei defnyddio i hysbysu'r Gweinidogion am berfformiad y Rheoleiddiwr, y sector ac unrhyw oblygiadau polisi cysylltiedig.

Daw'r Bwrdd hefyd â ffocws strategol i faterion ym mhob rhan o'r sector, drwy gomisiynu ymchwil i themâu allweddol. Mae'r themâu hyn yn deillio o waith y Tîm Rheoleiddio o ddydd i ddydd, megis yr adolygiad thematig Gwerth am Arian, a gynhaliwyd oherwydd y drafferth roedd nifer sylweddol o gymdeithasau'n ei gael i roi tystiolaeth o werth am arian yn eu hunanasesiadau. Yn ystod y flwyddyn gyfredol, mae'r Bwrdd wedi bod yn cynnal adolygiad/adroddiad cynnydd ar drefniadau llywodraethu cymdeithasau tai.

Caiff y Bwrdd ei gefnogi gan Grŵp Cynghori ar Reoleiddio a, than yn ddiweddar, Banel Ymgynghorol Tenantiaid.

Pennwyd y Cylich Gorchwyl canlynol ar gyfer y Bwrdd:

- (1) ymchwilio i berfformiad a gweithgarwch rheoleiddiol Llywodraeth Cymru, a'r sector, a hynny drwy ystyried adroddiad blynyddol, ac adroddiadau a chyfarwyddyd eraill gan y Rheoleiddiwr, a chyhoeddiadau eraill ynglŷn â pherfformiad y sector;

Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

(2) chwilio am sylwadau/safbwynt ychwanegol ar berfformiad y sector gan amrywiaeth eang o sefydliadau, yn ôl yr angen;

(3) defnyddio'r wybodaeth honno i:

- hysbysu'r Gweinidog o berfformiad y rheoleiddiwr a'r sector
- hysbysu'r Gweinidog o oblygiadau polisi cysylltiedig
- hysbysu'r Gweinidog o newidiadau i'r fframwaith rheoleiddiol;
- hysbysu'r Gweinidog o'r angen am ymchwil ychwanegol, fel yr ystyrir yn angenrheidiol.

Nid yw'r Bwrdd yn rhan o Lywodraeth Cymru. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw bwerau na swyddogaethau gweithredol. Caiff y Gweinidog Tai ac Adfywio (y Gweinidog) ofyn am unrhyw gyngor gan y Bwrdd yr ymddengys fod arno ei angen er mwyn cyflawni diben y Bwrdd; caiff y Gweinidog dderbyn neu wrthod unrhyw argymhellion a wneir gan y Bwrdd yn ôl ei ddisgresiwn.

Mae'r Bwrdd yn arfer ei swyddogaeth ar ran Llywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn tynnu oddi ar y ffaith fod y Bwrdd yn gweithredu mewn cymhwyster cynghorol, o fewn y cylch gwaith y cytunwyd arno gan y Gweinidog ac y bydd ei gyngor a'i argymhellion felly yn annibynnol.

Yn ddarostyngedig i ofynion arferol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, dewis y Gweinidog fydd cyhoeddi unrhyw adroddiadau/papurau gan y Bwrdd ai peidio. Llywodraeth Cymru fydd perchennog unrhyw ddata, adroddiadau a deunydd arall a gynhrychir gan y Bwrdd.

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol dan gadeiryddiaeth Helen White, Cadeirydd y Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ac fe fydd hefyd yn cynnwys Carol Kay, Llywodraeth Cymru Pennaeth Strategaeth Rheoleiddio a Tim Blanch Partner yn Tidal Consulting fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Chwefror 2018 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad yn ystod Mawrth 2018.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau yn Caerdydd, Parc Cathays.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlich amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod o Fwrdd Rheoleiddiol Cymru, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i PublicAppointments@gov.wales.